# 8



Cerdded ar dir comin Mynydd Illtyd

# Cynllun Gweithredu

**Mae'r amcanion strategol a drafodwyd ym Mhennod 7 wedi gosod dyheadau o ran rheoli'r Parc ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r uchelgeisiau hyn wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n hwyluso ystyried disgyblaethau rheoli unigol, fel priddoedd neu gludiant. Fodd bynnag, bydd rheolaeth effeithiol o adnoddau'r Parc angen integreiddio ar draws disgyblaethau i gyflawni deilliannau a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau tymor hir. Y ffordd fwyaf effeithiol o reoli tirwedd, er enghraifft, yw trwy ymdrechion cydunol ffermwyr a phorwyr, archeolegwyr, Awdurdodau Lleol, awdurdodau dŵr a llawer eraill.**

Daeth chwe thema, ar sail grwpiau tebyg, i'r amlwg o'r broses ymgynghori a ddefnyddiwyd i ddatblygu a blaenoriaethu gweithredoedd ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Dyma'r themâu:

1. **Rheoli Tirweddau'r Parc i Fanteisio i'r Eithaf ar Fuddion Cyhoeddus a Chadwraeth.**
2. **Cadw a Gwella Bioamrywiaeth.**
3. **Darparu Cyfleoedd Mynediad a Hamdden Awyr Agored i Bawb.**
4. **Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc.**
5. **Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy.**
6. **Datblygu Economaidd Cynaliadwy.**

Mae'r grwpiau hyn yn gweithredu gyda'i gilydd ar sail bragmatig neu ymarferol mewn perthynas â rheoli, yn hytrach na disgyblaeth. Mae nifer o'r themâu hefyd yn cynnwys is-themâu, neu is-grwpiau, sef setiau tebyg o weithredoedd, fel y rheiny sy'n gysylltiedig â rheoli effaith ymwelwyr neu reoli'r amgylchedd hanesyddol dan y cynllun tirwedd. O ystyried y cysylltiad uniongyrchol rhwng y themâu hyn a dibenion a dyletswydd y Parc, ac felly eu natur strategol, mae'n debygol y bydd y themâu a'r is-themâu yn dal i fod yn flaenoriaethau uchel yn y tymor hir (20 mlynedd oddi yma).

Mae pob thema hefyd yn cynnwys cyfres o feysydd ffocal sy'n cynrychioli'r blaenoriaethau cyffredinol a nodwyd trwy ymgynghori a chyfraniad gan randdeiliaid. Ynghyd â'r themâu



Trwsio llwybrau troed

ac is-themâu a nodwyd, mae'r meysydd ffocal yn darparu'r fframwaith ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Cynllun Gweithredu 2010-2015. Rhestrir y themâu, is-themâu a meysydd ffocal yn **Nhablau 8.1, 8.2 a 8.3**.

Yn y tymor byr (pum mlynedd), mae gweithredoedd mwy manwl wedi cael eu datblygu ac wedi'u cynnwys yn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Cynllun Gweithredu 2010-2015. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi gweithredoedd a fydd yn cynorthwyo wrth gyflawni deilliannau dymunol ac amcanion strategol yn y pum mlynedd nesaf, rhwng cyfnodau adolygu'r Cynllun Rheoli. Mae gweithredoedd a deilliannau wedi cael eu nodi trwy ymgynghori ac wedi'u cyfuno â gweithredoedd o bolisïau a dogfennau strategol eraill sydd eisoes yn bodoli. Yna cafodd gweithredoedd eu blaenoriaethu - eto trwy ymgynghori - i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfyngedig partneriaid. Mae pob thema yn y Cynllun Gweithredu yn cynnwys: disgrifiad byr pam fod y thema yn bwysig i reoli'r Parc, deilliannau dymunol mewn perthynas ag amcanion strategol, gweithredoedd â blaenoriaeth sy'n ofynnol i wneud cynnydd digonol tuag at y deilliannau yn y pum mlynedd nesaf, a phwy sy'n ofynnol i ddarparu'r gweithredoedd. Nid yw'r rhestr o bartneriaid sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithredoedd yn hollgynhwysol; mae'n cynnwys y prif bartïon cyfrifol a dylai gynnwys pawb sydd mewn sefyllfa i sicrhau bod y gweithredoedd yn cael eu cyflawni yn effeithiol. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru fel rhan o adolygiad pum mlynedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Tabl 8.1. **Fframwaith hierarchaidd ar gyfer gweithredoedd sy'n ymwneud â diben cyntaf y Parc**

| Thema | Is-thema | Maes Ffocal |
|---|---|---|
| **8.1. Rheoli tirweddau'r Parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth** | Rheoli'r amgylchedd hanesyddol | Diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol y Parc.<br>Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol y Parc.<br>Datblygu agenda ymchwil a rheolaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol. |
| | Rheoli'r amgylchedd naturiol | Nodi a gwella rôl ffermio wrth reoli tirwedd y Parc.<br>Datblygu agenda ymchwil a rheolaeth ar gyfer amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol. |
| | Manteisio i'r eithaf ar fudd cyhoeddus | Manteisio i'r eithaf ar fuddion cynlluniau lefel mynediad ac uwch Glastir yn y Parc Cenedlaethol. |
| | Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dirweddau'r Parc. | Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd ffermio wrth reoli'r Parc a'r materion sy'n wynebu dyfodol ffermio.<br>Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fywyd gwyllt, tirwedd ac amgylchedd naturiol y Parc. |
| | Rheoli coetiroedd | Amddiffyn a rheoli coetiroedd y Parc. |
| | Rheoli effeithiau ymwelwyr | Rheoli effeithiau ymwelwyr ar dirweddau, cynefinoedd a bywyd gwyllt y Parc. |
| | Rheoli geoamrywiaeth | Amddiffyn a rheoli geoamrywiaeth y Parc. |
| **8.2. Cadw a gwella bioamrywiaeth** | Rheoli bioamrywiaeth | Amddiffyn a rheoli bioamrywiaeth y Parc.<br>Datblygu a gweithredu prosiectau bioamrywiaeth cymuned er budd y cyhoedd a bywyd gwyllt.<br>Rhoi rhaglenni monitro ac ymchwil ar waith i gynorthwyo wrth reoli bioamrywiaeth y Parc. |
| | Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth y Parc | Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth y Parc. |







Tabl 8.2. **Fframwaith hierarchaidd ar gyfer gweithredoedd sy'n ymwneud ag ail ddiben y Parc**

| Thema | Is-thema | Maes Ffocal |
|---|---|---|
| **8.3. Darparu cyfleoedd mynediad a hamdden awyr agored i bawb** | | Rheoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus trwy roi'r Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy ar waith.<br>Gwell ddarpariaeth o fynediad at gefn gwlad a gwybodaeth amdano.<br>Defnyddio cyfleoedd ariannu ac adnoddau i wella mynediad at gefn gwlad. |
| **8.4. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Parc** | | Darparu profiad i ymwelwyr sy'n rhagori ar ddisgwyliadau.<br>Hybu a datblygu teimlad o gyfrifoldeb a rennir ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r Geoparc.<br>Datblygu cynllun â blaenoriaeth ar gyfer darparu gwybodaeth.<br>Cefnogi agenda LICC ac ADCDF trwy ddarparu gwasanaethau addysg.<br>Sefydlu rhwydwaith / is-grŵp ymchwil gwyddoniaeth amgylchedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r Geoparc.<br>Defnyddio cyfleoedd ariannu ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. |

Tabl 8.3. **Fframwaith hierarchaidd ar gyfer gweithredoedd sy'n ymwneud â dyletswydd y Parc**

| Thema | Is-thema | Maes Ffocal |
|---|---|---|
| **8.5. Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy** | Newid yn yr hinsawdd, disbyddiad tanwyddau ffosil ac allyriadau carbon | Annog a chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, disbyddiad tanwyddau ffosil ac allyriadau ffosil ac yn adeiladu'r gallu i'w gwrthsefyll. |
| | Cronfa Datblygu Cynaliadwy | Darparu Cronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n cyflawni blaenoriaethau strategol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. |
| **8.6. Datblygu economaidd cynaliadwy** | Cefnogi ffermwyr | Cefnogi ffermwyr â newidiadau sy'n effeithio ar ymarferion a busnesau fferm. |
| | Cefnogi economïau lleol | Cefnogi economïau lleol i gael mwy o allu i wrthsefyll newid. |
| | Datblygu a chefnogi twristiaeth gynaliadwy | Galluogi profiad gwell ar gyfer ymwelwyr.<br>Datblygu gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau.<br>Gwella effaith gynaliadwy economaidd twristiaeth.<br>Monitro effeithiau twristiaeth.<br>Annog gwell defnydd o gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr.<br>Cynnal a datblygu gweithio mewn partneriaeth. |